# Arholiad UG Uned 1 Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant: Hybu iechyd a llesiant

cbac wjec

## Deddfwriaeth ar gyfer hybu iechyd, llesiant a gwydnwch da (manyleb 2.1.2 (c))

Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** yn nodi popeth y mae'n rhaid i awdurdodau lleol (cynghorau) ei wneud i helpu pobl sydd angen gofal a chymorth. Mae'r Ddeddf hon yn darparu fframwaith cyfreithiol (yn gwneud newidiadau i'r gyfraith) ar gyfer gwella llesiant unigolion sydd angen gofal a chymorth, ac i ofalwyr sydd angen cymorth, gan drawsnewid darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Ymhlith yr heriau sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru mae newidiadau demograffig (poblogaeth sy'n heneiddio), disgwyliadau cynyddol gan y rhai sy'n cael gofal a chymorth a gwirioneddau economaidd caled a achosir gan ddiffyg cyllid a sut i flaenoriaethu adnoddau cyfyngedig.

**Egwyddorion allweddol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru):**

1. **Llais a rheolaeth:** rhoi'r unigolyn a'i anghenion wrth wraidd ei ofal; rhoi llais a rheolaeth iddo dros benderfyniadau i wireddu canlyniadau sy'n ei helpu i gyflawni llesiant.
2. **Atal ac ymyrryd yn gynnar:** cynyddu gwasanaethau ataliol mewn cymunedau lleol er mwyn lleihau'r angen i uwchgyfeirio angen critigol, e.e. mynediad at sgrinio iechyd.
3. **Llesiant:** unigolion sydd angen gofal a chymorth.
4. **Cyd-gynhyrchu:** annog unigolion i chwarae mwy o ran yn y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau.
5. **Aml-asiantaeth:** gwahanol weithwyr proffesiynol Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yn gweithio gyda'i gilydd, megis tîm amlddisgyblaethol, i ddarparu ymateb di-dor i unigolion ag anghenion lluosog a chymhleth fel bod pawb yn cael y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt; awdurdodau lleol yn gweithio gyda phartneriaid eraill, megis y sector iechyd, y sector tai a'r sector gwirfoddol, i ddarparu gwasanaethau o safon ac osgoi dyblygu.

Mae gan **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** 7 nod i fynd i'r afael â heriau megis newid yn yr hinsawdd, tlodi, anghydraddoldebau iechyd ac yr angen am gyfleoedd cyflogaeth newydd a thwf economaidd. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod yn rhaid i ni wneud pethau'n wahanol i ymateb i'r heriau hyn a hyrwyddo:

- Cymru **lewyrchus:** lle mae gan bawb swydd a lle nad oes unrhyw dlodi
- Cymru **gydnerth:** lle rydym yn barod ar gyfer digwyddiadau fel llifogydd
- Cymru **iachach:** lle mae pawb yn iachach ac yn gallu gweld meddyg pan fydd angen
- Cymru sy'n **fwy cyfartal:** lle mae pawb yn cael cyfle cyfartal beth bynnag fo'u cefndir
- Cymru o **gymunedau cydlynol:** lle gall cymunedau fyw'n hapus gyda'i gilydd
- Cymru â **diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu:** lle mae gennym lawer o gyfleoedd i wneud gwahanol weithgareddau a lle mae llawer o bobl yn gallu siarad Cymraeg
- Cymru sy'n **gyfrifol ar lefel fyd-eang:** lle rydym yn edrych ar ôl yr amgylchedd ac yn meddwl am bobl eraill ledled y byd.

Mae **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol** wedi cael ei phenodi i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithio tuag at y 7 nod llesiant a'i rôl yw diogelu buddiannau cenedlaethau'r dyfodol i bawb o bob oed yng Nghymru.